CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

*Cadeirydd* /Chair:
Mrs Rachel A. Samuel
11 Morgan Street, Trebanos, Swansea, SA8 4DW
e-bost/e-mail: samuelr12@hwbcymru.net
*ffôn/ tel* : 07974774069

Y*sgrifennydd*/Secretary:
Ms Alice Parry
39 Galleon Way, Cardiff Bay, CF10 4JA
e-bost/e-mail: alice.parry@bridgend.gov.uk
*ffôn/tel*: 07779 168084

Annwyl Athro Addysg Grefyddol ac ymarferwyr eraill,

Hoffai Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru fynegi'n diolchgarwch i chi am bopeth rydych yn ei wneud yn yr amseroedd anodd ac annisgwyl hyn yn sgil pandemig Covid-19. Rydym wedi cael cyfle i siarad â llawer o ymarferwyr dros y chwe mis diwethaf ac rydym yn deall fod eich gwaith yn fwy anodd a blinedig nag erioed. Rydym yn ddiolchgar am eich ymrwymiad a'ch ymroddiad i sicrhau fod lles y dysgwyr yn flaenoriaeth, a bod dysgwyr yng Nghymru'n cael mynediad at yr Addysg Grefyddol orau bosibl. Deallwn y gall llawer o'r materion sy'n cael eu trafod o fewn ein pwnc fod yn heriol ar y gorau. Fodd bynnag, yn y chwe mis diwethaf mae pob ymarferwr wedi gorfod dysgu'n sydyn o ran dysgu o bell a dysgu cyfunol, yn ogystal â gorfod delio â chwestiynau mawr gan ddysgwyr y mae eu byd wedi'i droi wyneb i wared. Rydych wedi gorfod gweithio mewn ffyrdd na fyddem wedi gallu eu dychmygu. Rydym yn eich annog i wneud yn siŵr eich bod yn edrych ar ôl eich lles eich hunain, yn ogystal â lles eich disgyblion. Rydych chi'n bwysig, ac rydym yn diolch i chi am bopeth a wnewch.

Ar ben yr heriau a wynebwn oherwydd pandemig Covid-19, mae cynifer o newidiadau'n digwydd mewn Addysg Grefyddol wrth i ni symud tuag at y Cwricwlwm i Gymru 2022. Hoffai'r Pwyllgor Gwaith ac aelodau CCYSAGauC i chi wybod ein bod ni a'ch CYSAGau lleol ar gael i'ch helpu. Mae ein manylion cyswllt ar wefan CCYSAGauC yn hiip://www.wasacr e.org.uk/. Croeso i chi gysylltu â ni. Mae CCYSAGauC yn gweithio'n agos gydag Ymgynghorwyr AG arbenigol sy'n eistedd ar y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG). Os ydych angen cymorth gan Ymgynghorydd, neu gan eich CYSAG lleol, gallwn eich rhoi mewn cysylltiad â rhywun a all eich cefnogi.

Rydym yn eich annog i ddilyn ein tudalen Twitter hiips://twitter.com/WASACRE ble byddwn yn rhannu'r cyngor a'r canllawiau diweddaraf ar AG a gweithgareddau CCYSAGauC. Manteisiwch arnom a gadewch i ni wybod y ffodd orau o'ch helpu. Mae CCYSAGauC wrthi'n diweddaru ein Gwefan a hefyd yn y broses o sefydlu tudalen Facebook. Edrychwch allan am hon gan y byddwn yn postio arolygon i ganfod anghenion athrawon AG yng Nghymru ar ein cyfryngau cymdeithasol o bryd i'w gilydd.

Diolch i chi eto am eich holl waith yn eich ysgolion. Gobeithiwn y byddwch chi a'ch teuluoedd yn cadw'n iach a diogel.

Cofion Gorau
Rachel Samuel
Cadeirydd CCYSAGauC